Festival UK*2022

COFNODION - CYFARFOD BWRDD FESTIVAL 2022 LTD
Dydd Mercher 4 Tachwedd 2020
Cynhelir drwy Microsoft Teams

Cyfarwyddwyr ac Arsyllwyr yn bresennol:	**Yn bresennol:**
Y Fonesig Vikki Heywood CBE, Cadeirydd (VH) Amali de Alwis MBE (AA) Dr. Hayaatun Sillem CBE (HS) Faraz Tasnim (FT) Liam Hannaway (LH), yn cynrychioli Gogledd Iwerddon Priya Lakhani OBE (PL), yn cynrychioli Lloegr Rob Smith MBE (RS) Dr Bridget McConnell CBE (BM), yn cynrychioli Yr Alban Roger Lewis, yn cynrychioli Cymru Emma Squire, DCMS (ES), Arsyllwr	Ian Reid, Prif Swyddog Gweithredol (IR) Martin Green CBE, Prif Swyddog Creadigol (MG) Caroline McGrory, Prif Swyddog Cyfreithiol (CMcG) David Grady, Prif Swyddog Ariannol (DG) Phil Batty, Cyfarwyddwr Gweithredol (PBa) Sam Hunt (SHu), Cyfarwyddwr Rhaglen Hilary O'Shaughnessy (HOS), Pennaeth Comisiynu Ben McKnight (BMc), Cyfarwyddwr Cyfathrebu Gerwyn Evans (GE), Cymru Greadigol Marie Christie (MC), EventScotland Rachel Stewart (RS), Cynorthwyydd Gweithredol Sarb Hair (SHa), Cydlynydd Gweithrediadau Corfforaethol

Ymddiheuriadau – Dr Maggie Aderin-Pocock MBE (MAP)

RHIF	**EITEM**	**I WEITHREDU**
1a.	<u>Cyflwyniadau</u> Croesawodd VH bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Dr Maggie Aderin-Pocock MBE.	
1b.	<u>Cymeradwyo'r Cofnodion a Materion sy'n Codi o'r cyfarfod diwethaf</u> **Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 1 Medi 2020.** Mae'r camau gweithredu o'r cyfarfodydd yn cael eu holrhain fel rhai cyflawn neu fe'u trafodwyd yn yr agenda fel eitemau penodol.	
1c.	<u>Cadarnhau Cofrestr Buddiannau</u> Atgoffodd VH y Bwrdd i roi gwybod am unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau i Gofrestr Buddiannau'r Cyfarwyddwyr i CMcg a nododd fod copi o'r Gofrestr ar gael ar yr Ystafell Bwrdd Rhithwir o dan 'Lywodraethu'. Nododd VH mewn perthynas â Busnes y cyfarfod heddiw fod y Diddordeb Cofrestredig canlynol i'w gofnodi mewn perthynas â'r 30 Tîm Creadigol Ymchwil a Datblygu arfaethedig o dan Eitem 3b: • Mae AA yn gyflogai i Microsoft. Cynrychiolir Microsoft yn un o Dimau Creadigol Gogledd Iwerddon. • BM yw Prif Weithredwr Glasgow Life. Mae Celtic Connections, sy'n rhan o Glasgow Life, yn Sefydliad Arweiniol ar gyfer un o Dimau Creadigol yr Alban. • Mae VH ar Grŵp Cynghori i'r Amgueddfa Ryfel Imperialaidd. Cynrychiolir yr Amgueddfa Ryfel Imperialaidd yn un o Dimau Creadigol y DU gyfan.	

1d.	Cadarnhaodd VH nad oedd yr un o'r Cyfarwyddwyr Anweithredol uchod yn bresennol yn ystod yr asesiad a'r dewis o Dimau Creadigol a bod yr asesiad wedi'i gynnal gan banel annibynnol. Atgoffodd VH y Bwrdd i ddatgan unrhyw fuddiant newydd nad yw efallai wedi'i ddatgan, yn enwedig yn dilyn cyflwyniad MG. <u>Penodi Cyfarwyddwyr</u> Symudodd VH i benodi'r unigolion canlynol yn Gyfarwyddwyr Festival 2022 Ltd ar unwaith: • ROGER LEWIS (RL) • DR. BRIDGET McCONNELL CBE (BM) **Yn dilyn cadarnhad bod pob Cyfarwyddwr wedi cydsynio i'w penodiad priodol, cymeradwyodd y Bwrdd benodiad RL a BM fel Cyfarwyddwyr y Cwmni a nododd eu bod wedi'u penodi'n Gyfarwyddwyr Cymeradwy Cadeirydd (yn gweithredu fel Cynrychiolwyr Cenedl) yn nodi cydsyniad VH fel Cadeirydd. Gofynnwyd i CMcG ffeilio'r apwyntiadau yn Nhŷ'r Cwmnïau.** Cadarnhaodd RL a BM eu bod wedi datgan eu buddiannau i Ysgrifennydd y Cwmni (CMcg) a bod y buddiannau wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Buddiannau Aelodau. <u>Diben y Cyfarfod</u> Cadarnhaodd VH mai busnes y cyfarfod oedd ystyried a chymeradwyo nifer o faterion, fel y nodir ymhellach yn yr Agenda a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod.	CMcG
2a.	<u>Diweddariadau Adrannol</u> Rhoddodd MG ddiweddariad llafar i'r Bwrdd ar sefydlu'r cwmni a recriwtio parhaus. Nodwyd y sylw sylweddol yn y cyfryngau i'r lansiad ymchwil a datblygu. Cadarnhaodd PB i'r Bwrdd fod Cyfarfod Sicrwydd Chwarterol cadarnhaol wedi'i gynnal gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon mewn perthynas â'r Cyllid Grant Nododd DA, fel Uwch Swyddog Cyfrifol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, y cynnydd sylweddol a wnaed ers Cyfarfod diwethaf y Bwrdd, gan gynnwys cymeradwyaeth y Pwyllgor Cyllid i'r Achos Busnes Amlinellol. Nododd DA fod Adolygiad Sicrwydd Prosiect (PAR) wedi'i gynnal a chytunodd i weithio'n agos gyda chwmni'r ŵyl i weithredu'r argymhellion. **CAM GWEITHREDU** - Gofynnodd VH i DA roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cynnydd a wnaed o ran gweithredu argymhellion PAR yng nghyfarfod llawn nesaf y Bwrdd. Cadarnhaodd MG fod Cyngor Dinas Belfast wedi'i benodi'n Gorff Cyflawni Strategol ar gyfer yr Ŵyl yng Ngogledd Iwerddon gan y Weinyddiaeth Ddatganoledig. Amlinellodd VH gynlluniau i gynnal cyfres o sesiynau "cinio a dysgu" anffurfiol gyda'r Bwrdd ac i drefnu Diwrnod Strategaeth. **CAM GWEITHREDU** – RS i'w drefnu gyda'r Bwrdd.	**ES** **RS**
2b/2c	<u>Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg</u> Rhoddodd FT y wybodaeth ddiweddaraf am sefydlu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chanlyniad y Cyfarfod Cynllunio a gynhaliwyd ar 30 Hydref 2020. **Cymeradwyodd y Bwrdd Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.**	

	Cyflwynwyd Fframwaith Rheoli Masnachol ac Ariannol yr Ŵyl i'w gymeradwyo. **Cymeradwyodd y Bwrdd y Fframwaith Rheoli Masnachol ac Ariannol, gan gynnwys y Polisïau allweddol canlynol:** • Cynllun Dirprwyo Ariannol • Polisi Caffael • Polisi Rheolaeth Ariannol • Polisi Rheoli'r Trysorlys Nododd FT y cynnydd sylweddol a wnaed yn y meysydd hyn, gan nodi Blaenoriaethau y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Gofynnodd HS am i Reoli Risg gael ei ychwanegu at Agenda'r Bwrdd yn y dyfodol. **Cymeradwyodd y Bwrdd y ddirprwyaeth o'r adolygiad o'r Gyllideb Flynyddol i y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, tra'n cadw'r gwaith o adolygu a chymeradwyo cyllideb Oes y Bwrdd.** **Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi Blaenoriaethau y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o'r Adroddiad Cryno, y Camau Gweithredu, a'r Diweddariad.**	PB
2d.	<u>Polisïau</u> Rhoddodd PBa ddiweddariad i'r Bwrdd ar ddatblygiad polisi Festival 2022 Ltd, fel yr amlinellir yn y Papur Diweddaru Polisïau ategol. **Dirprwyodd y Bwrdd gymeradwyaeth dirprwyedig i'r Polisïau fel y nodir yn y papur.** Fel rhan o'r ddirprwyaeth hon, neilltuwyd y Polisïau canlynol ar gyfer Adolygiad a Chymeradwyaeth y Bwrdd: Gwrth-dwyll, Anrhegion a Rhoddion, Iechyd a Diogelwch, Gwrth-Gaethwasiaeth a Chynllun Dirprwyo Cyllid. Nododd VH fod maint cwmni Festival a'r berthynas â'r Pwyllgor Trefnu yn golygu nad oedd angen Is-bwyllgor Adnoddau Dynol ar wahân i'r Bwrdd. Fodd bynnag, gofynnodd VH i Gyfarwyddwr Anweithredol gynnal adolygiad gorchwyl a gorffen gyda'r Cadeirydd ar feysydd adnoddau dynol a'r gweithlu. **CAM GWEITHREDU** – Cytunodd HS i gynnal yr adolygiad gorchwyl a gorffen hwn gyda VH.	HS/VH
2e.	<u>Cynllunio Covid-19</u> Rhoddodd MG ddiweddariad llafar i'r Bwrdd ar y cynllunio sy'n cael ei wneud mewn perthynas â'r pandemig byd-eang a'i botensial i effeithio ar yr ŵyl. Cytunwyd y byddai diweddariad pellach ar Gynllunio Covid-19 y Pwyllgor Trefnu yn cael ei ddarparu yng Nghyfarfod nesaf y Bwrdd. **CAM GWEITHREDU** – IR i ddiweddaru'r Bwrdd.	IR
3a.	<u>Trosolwg o'r Prosiect Ymchwil a Datblygu: Y Broses Ddethol</u> Ymunodd HoS, SHu, BMc, GE, ME â Chyfarfod y Bwrdd i gyflwyno'r Prosiect Ymchwil a Datblygu. Ailddatganodd MG amcanion strategol yr ŵyl a chadarnhaodd fod y Prosiect Ymchwil a Datblygu wedi ceisio comisiynu 30 o Dimau Creadigol i ymgymryd â chyfnod o dri mis o waith datblygu i lunio un o 10 comisiwn posibl ar gyfer yr Ŵyl. Amlinellodd MG y lefel uchel o ddiddordeb yr oedd y Prosiect Ymchwil a Datblygu wedi'i ddenu a chadarnhaodd fod 299 o gyflwyniadau wedi'u derbyn gan y tîm asesu ar draws y pedair gwlad.	

	Ailddatganwyd y Strategaeth Cyrchu ar gyfer y Prosiect Ymchwil a Datblygu, fel y'i cymeradwywyd gan y Bwrdd ar 1 Medi 2020, a chadarnhaodd MG fod y broses wedi'i chynnal yn unol â'r Strategaeth Cyrchu hon ac yn unol â chaffael cyhoeddus. Cadarnhaodd MG fod asesiad o gyflwyniadau tîm yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru wedi'i gynnal gan Gorff Cyflawni Strategol y genedl briodol. Asesodd y tîm canolog yn Festival 2022 Ltd gyflwyniadau tîm Lloegr a'r DU. Cadarnhawyd bod ymarfer monitro Cyfle Cyfartal wedi'i gynnal.	
3b/3c	<u>Prosiect Ymchwil a Datblygu: Timau Llwyddiannus ac Argymhelliad Dyfarnu Contract</u> Diweddarodd MG (ynghyd â SHu, GE a ME) y Bwrdd ar bob un o'r 30 Tîm Creadigol yn eu tro, gan nodi bod pob un wedi'u hardystio gan eu Corff Cyflawni Strategol yn eu tro. Trafododd y Bwrdd y 30 Tîm Creadigol a Galwad Agored y Prosiect Ymchwil a Datblygu. Ceisiwyd cymeradwyaeth y Bwrdd i ddyfarnu Contract Comisiynu Ymchwil a Datblygu i bob un o'r 30 Tîm Creadigol. **Cymeradwyodd y Bwrdd yr Argymhelliad Gwobrwyo ar gyfer y 30 Tîm Creadigol Prosiect Ymchwil a Datblygu a ddewiswyd.**	
4a	<u>Edrych Ymlaen</u> Cynigiodd VH y dylai'r Edrych Ymlaen gael ei ystyried mewn dwy rhan – "Busnes Cyfarfodydd Bwrdd" a "Sesiwn Strategaeth Flynyddol". Amlinellodd PBa y Cynllun Ymlaen ar gyfer Cyfarfodydd Bwrdd Llawn i ddod	

RHAGFYR	MAWRTH	EBRILL
Cyllid	Y 10 Comisiwn Terfynol	Adolygiad Cyllideb Oes a Chyfrifon Blynyddol
Rheoli Risg	Datganiad Caethwasiaeth Modern	Achos Busnes Llawn
COVID-19		Adolygiad COVID-19
Strategaeth Gyfathrebu a Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol	Sicrwydd Rhaglen (Cynllun Cyflwyno)	Adolygiad Risg
Stiwdio Creadigol Ymchwil a Datblygu: Diweddariad ar Gaffael		Canlyniad Adolygiad Grant Blynyddol
Gwerthuso, Dull Caffael	Cymeradwyo Polisïau	Gwerthusiad ARF

Cynhaliwyd trafodaeth ar y broses gymeradwyo Achos Busnes Llawn, y perthynas â'r cyllid a ddyfarnwyd i'r Gweinyddiaethau Datganoledig o dan Fformiwla Barnett a swyddogaeth Trysorlys EM. Nododd ES taw'r bwriad oedd cyflwyno FBC yn Gwanwyn 2021.

Cynigiwyd y meysydd trafodaeth canlynol a cytunwyd am sesiwn Strategaeth Bwrdd:

SESIWN STRATEGAETH 2020/21	SESIWN STRATEGAETH 2021/22
Strategaeth, Gwerthoedd a Blaenoriaethau'r Cwmni	Fframwaith Gweithredu Busnes
Siarter Gwerthoedd Cymdeithasol (gan gynnwys Cynaliadwyaeth a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynnwys)	Dyfodol yr Allbwn Ymchwil a Datblygu (Creative Commons, Arddangosfa, Archif)

	Cynllunio Etifeddiaeth **CAM GWEITHREDU** – VH i gwmpasu Sesiwn Strategaeth 2020/21 ymhellach..	**VH**
4b/4c	Dull Gwerthuso & Cynllunio Etifeddiaeth Rhoddodd PBa ddiweddariad cyffredinol ar y dull gwerthuso arfaethedig a chytunodd i ddarparu diweddariad pellach yn ystod cyfarfod nesaf y Bwrdd Llawn. **CAM GWEITHREDU** – PBa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Werthuso yng nghyfarfod llawn y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2020.	**PBa**
5	Pob Busnes Arall Ni chyflwynwyd unrhyw fater arall, a chaewyd y cyfarfod.	
Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 10 Rhagfyr 2020		